PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD LLUN, 15 GORFFENNAF 2019

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bowden, Driscoll, Hinchey, Jenkins, Lent a/ac Lister |
| Ymgynghorwyr oedd yn Bresennol | Jess Brown a/ac Gillian James |

62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rose Whittle, Ymgynghorydd Pwyllgor.

63 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol ar 23 Mai 2019, wedi penodi'r Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor:

Y Cynghorwyr Bowden, Driscoll, Hinchey, Jenkins, Lent, a Lister.

64 : CYLCH GORCHWYL

Cytunodd y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol ar 23 Mai 2019, ar y Cylch Gorchwyl canlynol:

(a) Hyrwyddo cyfleoedd bywyd a hawliau Plant sy’n Derbyn Gofal; Plant mewn angen; Pobl sy’n Gadael Gofal a phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ar draws y Cyngor, gydag Aelodau Etholedig a phartneriaid.

(b) Hyrwyddo’n weithredol gwelliannau go iawn a gynhelir trwy sicrhau bod mecanweithiau ar waith i:

- gael gwybod ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc, cyhyd ag sy’n ymarferol posibl;
- ystyried pwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas plant a phobl ifanc;
- ystyried nodweddion, diwylliant a chredau'r plentyn neu'r person ifanc;
- ystyried pwysigrwydd rhoi cymorth priodol i alluogi’r plentyn neu’r person ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt;
- ystyried pwysigrwydd hyrwyddo bod y ffordd y mae teulu’r plentyn yn magu’r plentyn yn gyson o ran hyrwyddo llesiant y plentyn;
- Pan fo’r plentyn yn iau na 16 oed, cael gwybod ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau’r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhieniol am y plentyn i’r graddau y mae’n gyson â llesiant y plentyn ac yn ymarferol resymol
- Bod darpariaeth ddilynol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n bodloni anghenion yr oedolion ifanc.

(c) Llunio a chyflawni rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori, gwrando ac ymgysylltu gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal, yn

ogystal ag ymweliadau i wasanaethau sy’n cynnig cyngor a chymorth i’r plant a’r bobl ifanc hynny.

(d) Argymell ffyrdd y gellir datblygu gwasanaethau mwy integredig ym mhob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor, ysgolion a rhanddeiliaid eraill â’r nod o sicrhau

- Cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol gwell i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal;
- Cymorth Emosiynol, Iechyd Meddwl a Llesiant i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal;
- Gwella gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag anableddau
- Annog Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal i ddod yn ddinasyddion actif.

(e) Sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith, ac adolygu data perfformiad yn rheolaidd i sicrhau gwelliannau cyson o ran cyflawniadau;

(f) Meincnodi a dysgu gan arfer gorau Awdurdodau Lleol eraill

(g) Derbyn pob adroddiad arolygu ac adroddiad blynyddol perthnasol ar Wasanaethau Plant, gan gynnwys: Adroddiad Safonau Gofal Cartrefi Plant; Themâu Adolygiadau Ymarferion Plant, Adroddiad Blynyddol Ansawdd Gofal Maethu; Adroddiad Blynyddol Ansawdd Gofal Mabwysiadu a Maethu; Comisiynu 4C; Adroddiad Blynyddol y Tu Allan i’r Ardal; Adroddiad Addysg; adroddiadau Cwynion gan Blant; a’r Adroddiad Blynyddol ar Eiriolaeth;

(h) Datblygu, monitro ac adolygu strategaeth rhianta corfforaethol, a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol trwy gynllunio gwaith a rhaglenni hyfforddiant rhianta corfforaethol;

(i) Cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd i’r Cabinet a gwneud argymhellion i’r Cabinet pan fo’r cyfrifoldeb am y swyddogaeth honno yn nwylo'r Cabinet;

(j) Adrodd i Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ôl yr angen;

(k) Argymell penodi aelodau cyfetholedig i’r Pwyllgor i’w cymeradwyo gan y Cyngor;

(l) Cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar waith Pwyllgor i’r Cyngor llawn.

(m) Bydd angen i bob Aelod o’r Pwyllgor gyflawni hyfforddiant perthnasol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau’n gywir.

65 : ENWEBU AC ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD

CYTUNWYD: Nodi i’r Pwyllgor ethol y Cynghorydd Lent yn Ddirprwy Gadeirydd.

66 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

67 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29ain Ionawr 2019 a'r 2il Ebrill 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

68 : STRATEGAETH DINAS SY'N DDA I BLANT UNICEF - CYFLWYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd Lee Patterson (Swyddog Addysg Gymunedol, Cyflawniad a Chynhwysiant, Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau yn amlinellu'r bartneriaeth rhwng UNICEF a Chaerdydd wrth weithio tuag at Gaerdydd i fod yn Dinas sy'n Dda i Blant. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r 5 nod (mae'r 3 olaf yn rhai thematig) a'r 17 ymrwymiad i weithredu arnynt. Mae'r cynllun cyflawni ei hun yn llawer mwy manwl, gydag adolygiad yn cael ei gynnal bob 6 mis.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch nifer yr Aelodau Etholedig nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant UNICEF hyd yma, a holwyd a oes disgwyliad y bydd pob aelod o staff yn cael yr hyfforddiant. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan UNICEF yn canolbwyntio ar swyddogion yr heddlu, y swyddogion hynny o'r gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn hytrach nag ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae modiwl e-ddysgu gorfodol y mae'n rhaid i staff ei ddilyn.

- Trafododd yr Aelodau'r angen i blentyn mewn gofal sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed, blaenoriaethu addysg ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal a holwyd sut y caiff mwy o gyllid a chymorth eu nodi ar gyfer y plant hyn, ac nid o reidrwydd drwy amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn her anodd, dim ond pan fyddant yn teimlo ei bod yn briodol y gallwch ymgysylltu â hwy. Mae'n bwysig cael y prosesau a'r strwythur i allu cael sgyrsiau ystyrlon. Mae gwaith i'w wneud ar hyn o hyd, mae'r Dinas sy'n Dda i Blant yn ymbarél ond mae gan wasanaethau plant ac addysg y cyfrifoldeb o wneud y gwaith.

  Mae'r gwasanaethau i blant yn comisiynu app o'r enw Meddwl Fy Hun a fydd yn werthfawr o ran rhoi adborth a gofyn cwestiynau. Rhoddwyd ymrwymiad y bydd pobl ifanc yn rhan o'r broses gyflwyno.

  Mewn perthynas â'r Arolwg Blynyddol, mae gwaith ymgysylltu'n cael ei wneud gyda gweithwyr teulu, iechyd a chymorth teulu, a chydweithwyr gofal plant a Dechrau'n Deg. Mae'r dudalen Facebook yn cael ei defnyddio hefyd i helpu i ymgysylltu ac mae astudiaeth achos yn cael ei chynnal ynghylch y gwaith yn Hyb Plant Trelái a Chaerau fel enghraifft o arfer da.

- Holodd yr Aelodau a fydd unrhyw adborth gan y staff am yr hyfforddiant yn rhan o unrhyw hyfforddiant newydd ac fe'u cynghorwyd bod UNICEF yn adolygu hyfforddiant bob 6 mis ar hyn o bryd wrth iddynt gynnal eu rhaglen sicrhau ansawdd, a bod hyfforddiant yn cael ei werthuso dros gyfnod o 18 mis.

CYTUNWYD: I nodi'r cyflwyniad.

69 : CYFLWYNIAD AR ARFER DA GADAEL GOFAL

Croesawodd y Cadeirydd Natasha Hidderley (Rheolwr Gweithredol Dros Dro, Gwasanaethau Arbenigol) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad manwl i'r Aelodau a nodwyd bod Caerdydd wedi dod yn enghraifft o arfer da o fewn y rhanbarth a'u bod yn arwain y ffordd wrth benderfynu beth y dylid ei ddarparu.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr app Meddwl Fy Hun a gofynnwyd a oes ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n gadael gofal i gael mynediad. Nodwyd gan fod yr app yn cael ei brynu gan yr awdurdod, y farn yw y dylai'r rhai sy'n gadael gofal barhau i gael mynediad, yn sicr tan eu bod yn 25 oed.

- Trafododd yr Aelodau eu pryderon nad oes darpariaeth ariannu ar gyfer Addysg Uwch i'r rhai sydd wedi bod mewn gofal ac wedi cyrraedd 25 oed. Gan nad oes darpariaeth, mae'r timau I Mewn i Waith a Dechrau Disglair yn ceisio helpu i ddod o hyd i lwybr i'r rhai sy'n dymuno ystyried addysg bellach ar yr adeg honno. Dywedodd swyddogion y gellid darparu rhai astudiaethau achos i Aelodau mewn cyfarfod diweddarach.

- Holodd yr Aelodau ynghylch sefydlogrwydd y gwasanaeth Ymgynghorydd Personol a nodwyd ei fod, mae'n debyg, yn un o'r rhai mwyaf sefydlog o fewn y gwasanaeth a bod nifer cyfyngedig iawn o staff yn symud.

- Mynegodd yr Aelodau bryder bod 57% o'r rhai a oedd wedi gadael gofal yn teimlo'n anniogel pan adawsant ofal am y tro cyntaf, gan holi a yw hynny'n gynrychioliadol o Gaerdydd, ond fe'u cynghorwyd bod yr awdurdod yn ceisio adeiladu cymuned gryfach. Mae pobl ifanc yn cael gwybodaeth am ble i gael cyngor am unrhyw broblemau y maent yn dod ar eu traws, mae gwybodaeth yn rhoi teimlad o gryfder.

- Holodd yr Aelodau sut rydym yn cefnogi ein pobl ifanc sy'n mynychu'r brifysgol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod yr Ymgynghorwyr Personol yn dda iawn am ddarparu cyngor, boed hynny o ran cyllid a chyllidebu, tai, cynllun y blwch melyn, sef

cyfnewidfa offer. Mae'n ymwneud yn bennaf â chreu annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth. Fel swyddogion, mae'n angenrheidiol hefyd cymeradwyo cymorth ariannol, er enghraifft am fwlch yn y cyllid ar gyfer llety. Fel rhieni, byddem yn darparu hynny ar gyfer ein plant, ac mae'n rhaid i'r awdurdod gynnig cymorth tebyg.

CYTUNWYD: I nodi'r cyflwyniad.

70 : CYNLLUNIAU GOFAL A CHYMORTH – CYFLWYNIAD

Croesawodd y Cadeirydd Natasha Hidderley (Rheolwr Gweithredol Dros Dro, Gwasanaethau Arbenigol) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau yn amlinellu nifer o faterion:

- Y gofynion statudol ar gyfer y cynllun;
- Y broses adolygu; a’r
- nodau

CYTUNWYD: I nodi'r cyflwyniad.

71 : EITEM STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL/ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan roi gwybodaeth yn amlinellu'r angen am Strategaeth Gwasanaethau Plant Caerdydd, a'r broses o'i datblygu 2019 – 2022

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r newidiadau i'r siart strwythur, ac fe'u cynghorwyd bod nifer o reolwyr gweithredol dros dro ar gael ar hyn o bryd, a bod hynny'n angenrheidiol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Fodd bynnag, mae ansawdd y ceisiadau wedi bod yn uchel. Mae angen dod ag aelodau o staff ifancach, llai profiadol, a gobeithiai y bydd y rheolwyr gweithredol dros dro yn gallu darparu cyfoeth o brofiad a chynorthwyo'r rhai llai profiadol.

- Trafododd aelodau'r cyllid posibl gan Lywodraeth Cymru a gofynnodd a fydd arian yn cael ei fuddsoddi ymhellach, er enghraifft, gwell cyfleusterau preswyl a thai i'n pobl ifanc. Mae'n bwysig rhoi'r profiad gorau posibl iddynt. Trafodwyd y disgwyliad i leihau, fel y mae'n berthnasol i'r niferoedd sydd yng ngofal awdurdodau lleol. Cynghorwyd yr Aelodau na fyddai unrhyw gosbau ariannol, mae'n ymwneud â gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu cynllun i leihau niferoedd. Nodwyd, o ran y ffigwr disgwyliad lleihau, bod plant sy'n byw gartref ond sy'n dal yn destun gorchymyn gofal yn cael effaith negyddol ar y ffigwr hwnnw.

- Nododd yr Aelodau'r bwriad i ddatblygu siarter cyfranogiad rhieni gyda golwg ar ei lunio ar y cyd gan rieni ar gyfer rhieni. Mae'n bwysig datblygu ffyrdd o weithio gyda rhieni a'u hannog i fod yn addysgwyr cyfoed.

- Gan y bydd angen adolygu ac ail-lansio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI), gofynnodd Aelodau bwrdd rheoli'r GTI am ystyried cael aelodau etholedig ar y bwrdd hwnnw.

- Holodd yr Aelodau faint o blant o awdurdodau eraill oedd mewn addysg yn y maes hwn ac fe'u cynghorwyd mai ychydig iawn oedd. Mae mwy o blant o Gaerdydd mewn addysg mewn awdurdodau eraill.

- Nododd Aelodau fod datblygu a gweithredu'r strategaeth yn ddarn enfawr o waith, sydd heb os yn gostus ac yn drafferthus a'u bod am gael sicrwydd ei fod yn drawsnewidiol ac y byddai'r gwasanaeth yn well. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod llawer o waith wedi'i ystyried ar y strategaeth ac na ellir ei gyflawni oni bai bod y strwythur yn newid. Roedd swyddogion yn derbyn ei fod yn ddarn enfawr o waith ond nid oedd yn derbyn ei fod yn gost enfawr. Nid yw pob aelod o staff yn fodlon ar y newidiadau i'r strwythur, ond rhaid cael newid er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth yn cael ei wneud i fywydau ein pobl ifanc a'u teuluoedd.

CYTUNWYD: Nodi cynnwys y strategaeth.

72 : BLAENGYNLLUN / BLAENRAGLEN WAITH

CYTUNWYD: I nodi’r Blaengynllun / Blaenraglen Waith

73 : ADRODDIADAU BRIFFIO

Rhoddwyd yr Adroddiadau Briffio canlynol i'r Aelodau:

- Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
- Adroddiad Cwynion Chwarter 4

Trafododd yr Aelodau’r adroddiad perfformiad Chwarter 4:

- Nododd yr Aelodau fod tîm y Swyddogion Adolygu Annibynnol bron â bod yn gyflawn a chafwyd canmoliaeth gadarnhaol i'r tîm hwnnw ac mae'r problemau bellach yn cael eu dwysáu'n brydlon.
- Nododd yr Aelodau fod Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghyfnod Allweddol 2 a 4 yn perfformio'n well na'r holl blant sydd ag anghenion gofal a chymorth ond bod y perfformiad hwnnw'n gostwng yn sylweddol yn CA 4. Dywedodd swyddogion fod nifer o astudiaethau achos wedi'u cynnal; blwyddyn 10 yw pan fydd llawer o fywydau plant yn ymddatod ac mae llawer o straeon y tu ôl i'r canlyniadau hynny. Bu cynnydd eleni yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ym mlwyddyn 11, mae'r awdurdod yn ymwybodol o'u

targedau ac yn gweithio'n galed i gael y wybodaeth cyn gynted â phosibl.  Mae cais wedi'i wneud gyda'r Consortiwm i ddarparu ar gyfer tiwtora a chefnogaeth i ddisgyblion Blynyddoedd 10 ac 11.

CYTUNWYD:  I nodi'r adroddiadau briffio

74 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys yn y cyfarfod.

75 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd pwyllgor canlynol:

17 Medi 2019 am 2.00 pm
18 Tachwedd 2019 am 2.00pm.
28 Ionawr 2020 am 2.00pm
17 Mawrth 2020 am 2.00 pm
19 Mai 2020 am 2.00 pm
21 Gorffennaf 2020 am 2.00 pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm